**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/2392/18

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

06 Gorffennaf 2018

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin mewn ymateb i lythyr y gwnaethoch ei dderbyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb i ailagor Gorsaf Carno.

Ein gweledigaeth yw gwella cysylltedd a chyfoethogi cymunedau drwy sicrhau gwell systemau trafnidiaeth. Ein nod ar hyn o bryd yw symud ymlaen â'n cynlluniau uchelgeisiol i ddiwygio seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar draws Cymru. Bydd y buddsoddiad arfaethedig gwerth £2 biliwn gan Keolis Amey yn cyfrannu'n fawr at gyflawni'r weledigaeth hon.

Ac eithrio Llinellau Craidd y Cymoedd a fydd yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac y bydd Keolis Amey yn agor gorsafoedd newydd ar eu rhwydwaith, Llywodraeth y DU fydd yn parhau'n gyfrifol am weddill y seilwaith rheilffyrdd. Wedi dweud hynny, rydym yn parhau i ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau posibl a all ddenu buddsoddiadau i Gymru, ac yn ariannu rhaglen i wella seilwaith y rheilffyrdd er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau trên gwell.

Rydym yn defnyddio ein pwerau a'n hadnoddau presennol er mwyn sicrhau bod gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru mewn gwell sefyllfa i elwa ar unrhyw gyfleoedd cyllid ar gyfer gorsafoedd a allai gael eu cynnig gan Lywodraeth y DU. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy roi sylw i'r gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer paratoi achos busnes cynnar ynghylch gorsafoedd newydd ar draws Cymru gan gynnwys Carno. Dylid nodi na all unrhyw gynnig lwyddo i sicrhau cyllid oni bai fod ganddo achos busnes cadarn.

Gall datblygu achos busnes cadarn i gefnogi cynnig ar gyfer gorsaf drên newydd fod yn llafurus ac yn ddrud. Yn sgil hynny, rydym wedi datblygu methodoleg i gyflymu'r gwaith datblygu angenrheidiol ac i ddatblygu rhestr o brosiectau. Felly, pan fydd Llywodraeth y DU

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn cynnig cyllid, bydd gan Gymru brosiectau ar gam datblygu priodol y gellir eu cyflwyno i'w hystyried, a byddai ganddynt well obaith o fod yn llwyddiannus. Rydym wedi comisiynu Trafnidiaeth Cymru i'n cynorthwyo â'r gwaith yma.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport